NID DYSG HEB FOES

Ysgol Brynhyfryd

Astudio'r Gymraeg

yn y Chweched Dosbarth

Amcan y cwrs:

Mae'r cwrs Uwch Gyfrannol a Safon Uwch mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) yn annog dysgwyr i:

- ddangos diddordeb, pleser a brwdfrydedd wrth astudio'r Gymraeg
- cyfathrebu'n gywir ac yn rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn ystod eang o sefyllfaoedd a chyd-destunau
- ysgrifennu'n greadigol a ffeithiol i amrywiaeth o bwrpasau
- dadansoddi testunau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn annibynnol
- gwrando ac ymateb i farn eraill wrth fynegi safbwynt
- mynegi barn annibynnol, yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o ystod o destunau llenyddol a ffeithiol
- ymateb yn glir, yn berthnasol, yn hyderus ac yn strwythuredig
- cyfrannu'n hyderus i weithgarwch mewn cymdeithas yn yr unfed ganrif ar hugain

Beth ydy cynnwys y cwrs Cymraeg?



Cwrs Uwch Gyfrannol (Blwyddyn 12)

Uned 1 – Arholiad Llafar (15%)

Ffilm: Hedd Wyn

Drama: Siwan (Saunders Lewis)

Uned 2 – Asesiad Ysgrifennu Diarholiad (10%)

Tasg 1: Creadigol

Tasg 2: Mynegi Barn

Uned 3 – Arholiad (15%)

Adran A: Defnyddio Iaith

Adran B: Barddoniaeth

Cwrs Safon Uwch Mamiaith (Blwyddyn 13)

Uned 4 – Arholiad Llafar (20%)

Nofel : Un Nos Ola Leuad (Caradog Pritchard)

Uned 5 – Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, Hengerdd a'r Cywyddau (20%)

Adran A: Branwen ferch Llyr (Mabinogi)

Adran B: Aneirin

Taliesin

Dafydd ap Gwilym

Uned 6 – Gwerthfawrogi Llenyddiaeth, y Gymraeg mewn Cyd-destun (20%)

Adran A: Gwerthfawrogi llenyddiaeth

Adran B: Y Gymraeg mewn Cyd-destun